# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideo gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 28 Ebrill 2020

Amser: 09.30 - 10.31

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6102

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Mick Antoniw AS (Cadeirydd)<br>Suzy Davies AS<br>Carwyn Jones AS<br>Dai Lloyd AS |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Cafwyd cadarnhad gan y Cadeirydd ei fod, yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor at ddibenion diogelu iechyd y cyhoedd.

Ni chafwyd ymddiheuriadau na dirprwyon.

## 2 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 2.1 SL(5)537 – Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) (Diwygio) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

### 2.2 SL(5)534 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

## 3 Is-ddeddfwriaeth nad yw'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.7

### 3.1 SL(5)536 - Deddf Erthylu 1967- Cymeradwyo Man Triniaeth ar gyfer Terfynu Beichiogrwydd (Cymru) 2020

Trafododd y Pwyllgor y camau i gydsynio â'r is-ddeddfwriaeth ac roedd yn fodlon arnynt.

## 4 Is-ddeddfwriaeth sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.7

### 4.1 SL(5)535 - Datganiad o fygythiad i iechyd y cyhoedd yng Nghymru oherwydd y coronafeirws

Trafododd y Pwyllgor y Datganiad a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

### 4.2 C(5)040 - Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2020

Trafododd y Pwyllgor y Rheoliadau a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

## 5 Adroddiad Gorchymyn Sefydlog 30B: Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a'r Fframweithiau Cyffredin

Nododd y Pwyllgor y datganiad ysgrifenedig a’r adroddiad.

## 6 Papur(au) i’w nodi

### 6.1 Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol: Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol.

### 6.2 Llythyr gan y Llywydd: Swyddogaethau’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth â’r Llywydd.

### 6.3 Llythyr gan Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol: Fforwm Masnach Gweinidogol

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol

### 6.4 Llythyr gan y Prif Weinidog at y Llywydd: Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Prif Weinidog, gan ychwanegu y byddai’n trafod y Rheoliadau hyn mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o’r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 8 Y flaenraglen waith - trafodaeth

Trafododd y Pwyllgor ei flaenraglen waith yng nghyd-destun y sefyllfa bresennol o ran COVID-19.

## 9 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Masnach - dull o gynnal gwaith craffu

Trafododd y Pwyllgor ei ddull o graffu ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gan Lywodraeth Cymru ynghylch Bil Masnach Llywodraeth y Deyrnas Unedig, a chytunodd i ysgrifennu at Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol.